# Cylch Meithrin Meini Bach

*Polisi Gwirfoddoli*

*Volunteering Policy*

**Ar gyfer gwirfoddolwyr sydd yn cynorthwyo yn ystod sesiwn Cylch Meithrin neu gyda tasgau / gweithgareddau penodol.**

Bydd **Cylch Meithrin Meini Bach** yn dilyn y polisi hwn a'i addasu yn ôl yr angen a'i adolygu yn flynyddol.

Bydd **arweinydd Cylch Meithrin Meini Bach** yn sicrhau fod pob aelod o staff yn deall y polisi hwn.

Bydd **Cylch Meithrin Meini Bach** yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwybod am y polisi hwn trwy gymryd y camau canlynol:

(Nodwch sut byddwch yn rhannu'r wybodaeth yma. E.e. Rhoi'r polisi ar wefan y Cylch Meithrin; rhoi'r polisi mewn llawlyfr i rieni; rhoi copi o'r polisi yng nghyntedd y Cylch Meithrin neu fan ble gall pobl ei weld; tynnu sylw rhieni a gofalwyr at  bolisi mewn nosweithiau / boreau i rieni.  Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn)

1. Rhoi'r polisi ar wefan y Cylch Meithrin
2. Rhoi copi o'r polisi yng nghyntedd y Cylch Meithrin neu fan ble gall pobl ei weld

| **ADOLYGWYD GAN** | | **DYDDIAD** |
|---|---|---|
| (Enw) | (Llofnod) | (Dyddiad) |
| Mari Hannah Lanchbury | M.LANCHBURY | 15/06/22 |

*(Awgrymir eich bod yn adolygu eich polisi yn flynyddol a hysbysu AGC, lle bo hynny'n berthnasol, os ydych wedi gwneud newidiadau iddo.)*

# Cylch Meithrin Meini Bach

*Polisi Gwirfoddoli*

*Volunteering Policy*

**For volunteers who assist during a Cylch Meithrin session, or with specific tasks / activities**

**Cylch Meithrin Meini Bach** adheres to this policy, reviews it annually and updates it as required.

The **leader** of **Cylch Meithrin Meini Bach** will ensure that every member of staff understands this policy.

**CylchMeithrin Meini Bach** will ensure that parents and carers are aware of this policy by taking the following steps:

(Note how you will share this information.  E.g. Policy will be placed on the Cylch Meithrin website; Policy to be given in a handbook to parents / carers; place policy in the Cylch Meithrin entrance or where people are able to view it; draw the attention of parents and carers to the policy during parents evenings / mornings.  This list is not exhaustive.)

1. Policy will be placed on the Cylch Meithrin website.
2. Place policy in the Cylch Meithrin entrance or where people are able to view it.

| **REVIEWED BY** | | **DATE** |
|---|---|---|
| (Name) | (Signature) | (Date) |
| Mari Hannah Lanchbury | M.LANCHBURY | 15/06/22 |

*(It is suggested that you review your policy annually and notify CIW, where appropriate, of any changes you make.)*

# Cylch Meithrin Meini Bach

*Polisi Gwirfoddoli*

*Volunteering Policy*

**Cefndir**

Mae gwirfoddolwyr yn gwneud gwahaniaeth aruthrol i bobl a'u cymunedau. Yn aml, bydd y gwirfoddolwyr yn elwa o'r profiad gymaint a'r unigolion neu'r gymuned maent yn eu helpu. Yn syml, gellir disgrifio gwirfoddoli fel gweithgarwch:

- sy'n cael ei gyflawni'n rhydd, o ddewis.
- sy'n cael ei gyflawni er budd y gymuned.
- nad sy'n cael ei gyflawni er mantais ariannol.

**Beth yw Gwirfoddoli?**

Mae'r Cylch Meithrin yn ystyried gwirfoddoli fel gweithgaredd di-dâl lle mae rhywun yn rhoi o'u hamser i helpu'r Cylch Meithrin. Nid yw gwirfoddolwyr yn staff sy'n cael eu talu ac nid oes ganddynt berthynas gytundebol rhwym mewn cyfraith gyda'r Cylch Meithrin.

Mae Gwirfoddolwyr yn cyflawni gwaith sydd yn atodol i ac yn wahanol i waith staff cyflogedig y Cylch Meithrin. Ni fydd disgwyl i Wirfoddolwyr gyflawni tasgau y mae eraill yn eu cyflawni fel rhan o swydd cyflogedig. Nid yw gwirfoddolwyr sy'n dod i arwain gweithgaredd penodol yn cyfri fel rhan o ratio staffio'r Cylch Meithrin.

Mae'r Cylch Meithrin yn disgwyl i wirfoddolwyr:

- fod yn ddibynadwy.
- bod yn onest.
- parchu cyfrinachedd.
- gwneud yn fawr o gyfleoedd hyfforddi a chefnogi.
- cyflawni tasgau mewn modd sy'n adlewyrchu nodau a gwerthoedd y Cylch Meithrin.
- cyflawni tasgau o fewn y canllawiau y cytunwyd arnynt.
- parchu gwaith y Cylch Meithrin a pheidio â dwyn anfri (*disrepute*) arno.
- cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r Cylch Meithrin.

# Cylch Meithrin Meini Bach

*Polisi Gwirfoddoli*
*Volunteering Policy*

**Background**

Volunteers make a tremendous difference to people and communities. Volunteers often gain as much from the experience as the individuals or communities they are helping. Simply put, volunteering is:

- undertaken freely, by choice
- undertaken to be of community benefit
- not undertaken for financial gain

**What is Volunteering?**

The Cylch Meithrin considers volunteering to be unpaid activity where an individual gives of their time in order to help the Cylch Meithrin. Volunteers are not paid staff, and they do not have a legally-binding contractual relationship with the Cylch Meithrin.

Volunteers undertake work which is supplementary and different to the work which is carried out by Cylch Meithrin employees. Volunteers are not expected to complete tasks that are carried out by others as part of their paid role. Volunteers who come to lead specific activities do not count towards the Cylch Meithrin's staffing ratio.

The Cylch Meithrin expects volunteers to:

- be dependable
- be honest
- respect confidentiality
- make the most of training and support opportunities
- carry out tasks in a way which reflects the aims and values of the Cylch Meithrin.
- carry out tasks within the agreed guidelines
- respect the work of the Cylch Meithrin and not bring its name into disrepute.
- comply with the Cylch Meithrin's policies and procedures.

Mae'r Cylch Meithrin yn cydnabod hawl y gwirfoddolwyr:

- i gael gwybod yr hyn a ddisgwylir (a'r hyn na ddisgwylir) ohonynt.
- i gael digon o gefnogaeth wrth wirfoddoli.
- i gael eu gwerthfawrogi.
- i wirfoddoli mewn amgylchedd diogel.
- i gael eu hyswirio.
- i gael gwybod beth yw eu hawliau a'u cyfrifoldebau os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.
- i gael mân dreuliau perthnasol.
- i gael hyfforddiant priodol.
- i beidio ag wynebu gwahaniaethu.
- i gael cynnig y cyfle i ddatblygu'n bersonol.

**COD YMARFER**

Mae'r Cylch Meithrin yn gobeithio y bydd yr amser y mae unigolion yn ei dreulio yn gwirfoddoli yn y Cylch Meithrin yn amser pleserus. Mae'r Cylch Meithrin yn gwerthfawrogi cyfraniad gwirfoddolwyr i sicrhau hyfywedd y Cylch Meithrin. Mae'r Cylch Meithrin yn diolch i'r unigolion sydd yn cynnig eu hamser i gefnogi'r Cylch Meithrin a'i nodau ehangach. Mae'r Cylch Meithrin yn gobeithio y bydd yr amser mae pob gwirfoddolwr yn treulio gyda'r Cylch Meithrin yn bleserus, gwerth chweil ac yn ddiogel.

I'r perwyl hwn, mae'r Cylch Meithrin yn ymrwymo i:

- gynnal cyfarfod anwytho i bob Gwirfoddolwr.
- sicrhau bod gwirfoddoli yn agored i bawb. Mewn rhai achosion gall fod angen i wirfoddolwyr cwblhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gweler y nodyn ar anghenion GDG isod).
- dderbyn gwirfoddolwyr ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio addasrwydd yr unigolyn i gyflawni'r tasgau y cytunwyd arnynt fel yr unig faen prawf.
- hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli yn eang fel eu bod ar gael i bob aelod o'r gymuned.

- sicrhau bod pob gwirfoddolwr yn ymwybodol o ac yn deall anghenion y rôl maent yn cytuno i'w ymgymryd.
- rhoi cyfle i'r gwirfoddolwyr rhannu eu barn, lle bo hynny'n briodol, gyda'r Pwyllgor Rheoli ac / neu Mudiad Meithrin.
- gysylltu gyda'r Swyddog Cefnogi lleol i adnabod cyfleoedd hyfforddiant perthnasol ar gyfer y gwirfoddolwyr.
- sicrhau bod gwirfoddolwyr yn ymwybodol o weithdrefnau a pholisïau'r Cylch Meithrin.
- cadw 'ffeil gwirfoddolwr' gan ddilyn trefniadau arferol ar gyfer ffeiliau staff cyflogedig y Cylch Meithrin lle bo hynny'n briodol ac yn ofynnol gan AGC.
- annog gwirfoddolwyr i fynychu hyfforddiant priodol ar ddiogelu plant ac oedolion.
- sicrhau bod y gwirfoddolwyr yn ymwybodol o ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r Cylch Meithrin.
- ad-dalu costau a mân dreuliau rhesymol, ar yr amod bod ganddynt dderbynneb fel tystiolaeth o'r gwariant. Esbonnir yr hyn y gellir ei hawlio yn ôl gan y Cylch Meithrin a sut mae cyfrifo treuliau i'r gwirfoddolwr cyn iddo ddechrau ar unrhyw weithgaredd sy'n debygol o achosi treuliau, e.e. adnoddau ar gyfer gweithgaredd crefft, cyflenwad o ffrwyth ar gyfer amser tocyn / byrbryd.

Gall tîm cyson, dibynadwy o wirfoddolwyr yn y Cylch Meithrin cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y Cylch Meithrin. Bydd y Cylch Meithrin yn sicrhau bod pob gwirfoddolwr yn ymwybodol o'r anghenion penodol.

Mae llunio rota o wirfoddolwyr o blith rieni / gofalwyr / gwarchodwyr y Cylch Meithrin yn gallu bod yn ffordd o sicrhau bod pawb yn teimlo perchnogaeth dros y Cylch a'i gweithgareddau. Ble mae tîm / rota o unigolion yn gwirfoddoli yn y Cylch Meithrin, gall fod yn ddefnyddiol cadw cofnod o enwau a manylion cyswllt yr unigolion er mwyn medru cysylltu gyda hwy os bydd angen rhwng sesiynau'r Cylch Meithrin.

Mae polisïau yswiriant atebolrwydd y Cylch Meithrin yn cynnwys gweithgareddau gwirfoddolwyr ac atebolrwydd iddynt.

Cyfrifoldeb y Gwirfoddolwr yw canfod a fydd gwirfoddoli yn effeithio ar eu hawl i unrhyw fudd-daliadau nawdd cymdeithasol. Bydd rhaid i bob unigolyn dderbyn cyngor pellach gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Canolfan Byd Gwaith, neu'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

**Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd *(GDG / DBS)***

Bydd angen i unigolion sydd yn gwirfoddoli yn ystod amser sesiynau'r Cylch Meithrin derbyn gwiriad GDG. Os yw'r gweithgaredd yn gofyn am ddatgeliad GDG bydd angen i'r gwirfoddolwr gwblhau'r gwaith papur perthnasol, a derbyn cliriad cyn y gall ddechrau fel gwirfoddolwr yn y Cylch Meithrin. Bydd yr Arweinydd / Pwyllgor y Cylch Meithrin yn nodi'n glir os oes angen gwiriad GDG ar gyfer y rôl.
Ceir manylion cyfredol am wneud ceisiadau am datgeliad GDG ar gyfer gwirfoddolwyr ar wefan ucheck: https://www.ucheck.co.uk/dbs-checks-for-volunteers/ ac ar wefan llywodraeth y DU: https://www.gov.uk/government/publications/disclosure-application-process-for-volunteers .

**Goruchwyliaeth**

Yr Arweinydd fydd yn bwynt cyswllt i chi wrth i chi wirfoddoli yn y Cylch Meithrin. Yn ogystal â goruchwylio unrhyw weithgaredd byddwch yn ei gyflawni, bydd yr Arweinydd wrth law i ateb unrhyw gwestiynau sydd yn codi yn ystod amser y gwirfoddolwr yn y Cylch Meithrin. Bydd yr Arweinydd yn trefnu sesiynau trafod 'un-i-un' gyda'r gwirfoddolwyr yn achlysurol er mwyn rhoi cyfle i chi drafod eich rôl o fewn y Cylch Meithrin, cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau perthnasol a rhoi cyfle i'r gwirfoddolwr gwneud awgrymiadau / cynnig adborth ar eich rôl.

Cofiwch fod hawl gan wirfoddolwyr i wrthod galwadau a wneir ohonynt os ydynt yn teimlo eu bod yn afrealistig, tu hwnt i gwmpas y rôl y cytunwyd arni, neu nad ydynt yn teimlo bod ganddynt y sgiliau priodol i'w cyflawni.

# Cylch Meithrin Meini Bach

*Polisi Gwirfoddoli*
*Volunteering Policy*

The Cylch Meithrin acknowledges the right of the volunteer:

- to know what is expected (and not expected) of them.
- to receive sufficient support when volunteering.
- to be appreciated.
- to volunteer in a safe environment.
- to be ensured.
- to know what are their rights and responsibilities if something goes wrong.
- to receive relevant expenses.
- to receive appropriate training.
- not face discrimination.
- to have the opportunity for personal development.

## CODE OF PRACTICE

The Cylch Meithrin hopes that the time spent by the individual in volunteering will be enjoyable. The Cylch Meithrin appreciates the contribution volunteers make to its viability. The Cylch Meithrin thanks the individuals who give of their time to support the Cylch and its wider aims. The Cylch Meithrin hopes that the time each volunteer spends with the Cylch will be enjoyable, worthwhile and safe.

The Cylch Meithrin commits to:

- holding an induction meeting for each volunteer.
- ensuring that volunteering is open to all. In some instances there may be a need for a volunteer to complete a Disclosure and Barring Service Check (see the note on DBS requirements below).
- accepting volunteers on the basis of merit, using the suitability of the individual to complete agreed upon tasks as the only criteria.
- widely promote volunteering opportunities so that they are available to all members of the community.
- ensuring that every volunteer is aware of and understands the requirements of the role they agree to undertake.
- giving volunteers the opportunity to share their opinion, where appropriate, with the Management Committee and / or Mudiad Meithrin.

- contacting the local Support Officer to identify training opportunities for volunteers.
- ensuring that every volunteer is aware of and understands the Cylch Meithrin's policies.
- maintaining a 'volunteer file' following the usual procedures for paid Cylch Meithrin staff, where appropriate and required by CIW.
- encouraging volunteers to receive appropriate training on child and adult protection.
- ensuring that every volunteer is aware of and complies with the Cylch Meithrin's policies and procedures.
- repaying reasonable costs and expenses, providing a receipt is provided as proof of expenditure. The Cylch will explain how to reclaim expenses and how they are accounted before the volunteer first undertakes any activity likely to accrue expenses, e.g. resources for craft activities, a supply of fruit for snack time.

A consistent, dependable team of volunteers can contribute significantly to the Cylch's success. The Cylch Ti a Fi will ensure that every volunteer is aware of their specific duties.

Drawing up a rota of parents / carers / guardians can be a way of ensuring that everybody feels ownership of the Cylch and its activities. Where there is a team / rota of individuals running the Cylch Meithrin, it can be useful to keep a record of names and individual contact details in order to be able to contact them between sessions, if needed.

The Cylch Meithrin's insurance policies include volunteers' activities and liability for them.

It is the responsibility of the volunteer to establish whether volunteering will affect their rights to any benefit payments. Individuals should seek further advice from the Department of Works and Pension, Job Centre or the Citizens' Advice Bureau.

**Disclosure and Barring Service**

Any volunteer working during a Cylch Meithrin session must receive a DBS check. If the activity requires a DBS check the volunteer must complete the relevant paperwork and receive clearance before beginning work in the Cylch Meithrin. The Cylch Meithrin's Leader / Committee will note clearly whether the role requires a DBS check.

Up to date details regarding applications for DBS checks are available on the ucheck website: https://www.ucheck.co.uk/dbs-checks-for-volunteers/ and on the UK website https://www.gov.uk/government/publications/disclosure-application-process-for-volunteers .

**Supervision**

Your point of contact within the Cylch Meithrin will be the Leader. In addition to supervising any activity you carry out, the Leader will be on hand to answer any questions that arise during your time as a volunteer in the Cylch Meithrin. The Leader will occasionally arrange 'one-to-one' discussions with volunteers as an opportunity to discuss your role within the Cylch Meithrin, to learn of any relevant developments and to give the volunteers an opportunity to make suggestions / offer feedback on their role.

Remember that volunteers have the right to refuse things asked of them if they feel that they are unrealistic, beyond the scope of their agreed role, or that they do not feel they have the appropriate skills to carry them out.

**Ymrwymiad**

Mae cefnogaeth ein gwirfoddolwyr yn bwysig iawn i ni fel Cylch Meithrin. Bydd yr Arweinydd yn trafod gyda gwirfoddolwyr unigol faint o amser maent yn gallu ac yn fodlon cynnig i'r Cylch Meithrin, a pha mor aml. Gofynnwn yn garedig i wirfoddolwyr rhoi gwybod i'r Arweinydd mor gynted ag y bo modd os nad ydynt yn gallu bod yn bresennol am unrhyw reswm.

**Dod â Cyfnod Gwirfoddoli i Ben**

Os yw'r Gwirfoddolwr yn dymuno gorffen gwirfoddoli yn y Cylch Meithrin, gallant wneud hynny ar unrhyw adeg. Bydd angen i wirfoddolwr rhoi gwybod i'r Arweinydd cyn gynted â phosibl o'i fwriad i ddod a'i chyfnod o wirfoddoli i ben.

Er bod y Cylch Meithrin yn gwerthfawrogi cefnogaeth y gwirfoddolwyr, gall fod achosion ble mae newidiadau mewn amgylchiadau neu anghenion y Cylch Meithrin yn golygu y bydd angen i'r Cylch Meithrin dod â gweithgareddau penodol i ben, ac o ganlyniad, cyfnod gwirfoddoli unigolyn i ben. Mewn achosion o'r fath, fydd yr Arweinydd yn rhoi gwybod o flaen llaw i'r unigolyn, gan ddiolch i'r gwirfoddolwr am eu hamser a'u arbenigedd.

Os ddaw i'r amlwg nad yw Gwirfoddolwr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r Cylch Meithrin, gall fod angen i'r Cylch Meithrin dod â chyfnod gwirfoddoli unigolyn i ben. Mewn achosion o'r fath, fydd yr **Arweinydd / Y Pwyllgor Rheoli** yn rhoi gwybod i'r unigolyn, gan wneud unrhyw drefniadau perthnasol.

Pan fydd gwirfoddolwr yn gorffen cyfnod gwirfoddoli yn y Cylch Meithrin, bydd disgwyl iddynt ddychwelyd unrhyw eitemau ac / neu offer sydd wedi eu benthyg iddynt gan y Cylch Meithrin er mwyn iddynt fedru ymgymryd â'r rôl.

**Polisïau Cysylltiedig**

Polisi Yr Iaith Gymraeg

Cylch Meithrin Meini Bach

*Polisi Gwirfoddoli*

*Volunteering Policy*

## Commitment

The support of our volunteers is very important to us as a Cylch Meithrin. The Leader will discuss with individual volunteers how much time they are able and willing to offer to the Cylch Meithrin, and how frequently. We kindly ask volunteers to inform the Leader as soon as possible if they are not able to be present for whatever reason.

## Bringing a Volunteering Period to an End

A Volunteer may choose to bring a period of volunteering to an end whenever they so choose. Volunteers will need to inform the Leader as soon as possible of their intention to cease volunteering.

Although the Cylch Meithrin appreciates the support of its volunteers, there may be occasions when changes in the Cylch Meithrin's circumstances or needs mean that the Cylch Meithrin may need to bring a specific activity to a close, and also bringing the individual's volunteering period to an end. In these instances the Leader will inform the individual beforehand, thanking them for their time and expertise.

It may be necessary for the Cylch Meithrin to bring an individual's volunteering to an end if it becomes apparent that they are not following the Cylch's policies and procedures. In these instances the **Leader / Management Committee** will inform the individual and also make any necessary arrangements.

When an individual's period volunteering in the Cylch Meithrin comes to an end they will be expected to return any items / equipment borrowed from the Cylch to aide in the completion of their role.

## Associated Policies

Welsh Language Policy